Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru
NHS Wales Health Collaborative

# Cylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol – Chwarter 2

**Croeso i ail rifyn o Gylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol!**

Yn ein cylchlythyr cyntaf erioed, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom gyflwyno'r rhaglen, y tîm y tu ôl iddi, a thynnu sylw at amrywiol ffyrdd o gysylltu â ni. Yn y rhifyn hwn, byddwn yn rhoi disgrifiad byr o drefn lywodraethu'r rhaglen a'i ffrydiau gwaith craidd, a hefyd yn rhannu ychydig newyddion/diweddariadau cyffredinol a fydd yn sicr o fod o ddiddordeb ichi!
Os hoffech gael eich ychwanegu i'r rhestr ddosbarthu ar gyfer ein cylchlythyr, anfonwch e-bost ar: NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk.

# National Imaging Programme Newsletter - Quarter 2

**Welcome to the second edition of the National Imaging Programme Newsletter!**

Our first ever newsletter, issued in July 2022, introduced the programme, the team behind it, and highlighted various ways to engage with us. In this edition, we will give a brief description of our programme governance and core workstreams, along with some general updates/news we think you may find of interest!
If you would like to be added to the circulation list for our newsletter, please email:

NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk.

## Trefn Lywodraethu'r Rhaglen

Yn ganolog i'r gwaith hwn y mae Bwrdd Strategol y Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NIPSB), sy'n dwyn ynghyd amrywiol weithwyr proffesiynol o GIG Cymru a Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r trefniadau ar gyfer rheoli a gweithredu'r Cynllun Strategol Delweddu ar gyfer GIG Cymru.

Caiff yr NIPSB ei gadeirio gan yr Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) dros ddelweddu – sef Steve Moore,

## Programme Governance

At the centre of this work is the National Imaging Strategic Programme Board (NIPSB), which brings together a range of professionals from across NHS Wales and Welsh Government to oversee the management and implementation of the Imaging Strategic Plan for NHS Wales.

The NIPSB is chaired by the Senior Responsible Owner (SRO) for imaging – currently Steve Moore, Chief Executive at Hywel Dda UHB - and ensures high level

Prif Weithredwr BIP Hywel Dda ar hyn o bryd – ac mae'n sicrhau lefel dda o atebolrwydd ar draws ymddiriedolaethau a byrddau iechyd GIG Cymru.

Cewch ddarllen rhagor am drefn lywodraethu ein rhaglen yma.

accountability across all NHS Wales health boards and trusts.

Read more about our programme governance here.

# Ffrydiau gwaith

Fe wnaeth Bwrdd Strategol y Rhaglen Delweddu Genedlaethol sefydlu pedair ffrwd waith graidd i ddarparu cymorth rheoli rhaglenni a phrosiectau er mwyn cyflawni yn erbyn y gweithredoedd a amlinellir yn y Datganiad o Fwriad o ran Delweddu a dogfen gweledigaeth 3-5 mlynedd y Rhaglen Delweddu Genedlaethol.

Mae gan bob ffrwd waith arweinydd rhaglenni sydd â chyfrifoldeb dros reoli'r rhaglenni/prosiectau, rheoli risgiau a phroblemau a monitro manteision.

# Workstreams

The National Imaging Programme Strategy Board established four core work streams to provide programme and project management support to deliver against the actions outlined in the Imaging Statement of Intent and the National Imaging Programme 3-5 year vision document.

Each work stream has a programme lead with responsibility for programme/project management, risks and issues management and benefits monitoring.

**Gweithlu ac Addysg**

Mae arweinydd ein rhaglen gweithlu yn cydlynu'r gwaith o gyflwyno'r ffrwd waith hon drwy Grŵp y Gweithlu Delweddu ac Addysg (IWEG). Mae IWEG yn gweithio'n agos ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i gyflwyno trefniadau gweithlu cynaliadwy ar draws gwasanaethau delweddu yng Nghymru.

Cewch ddarllen rhagor am ein Ffrwd Waith Gweithlu ac Addysg yma.

**Workforce and Education**

Our workforce programme lead co-ordinates delivery of this workstream via the Imaging Workforce and Education Group (IWEG). IWEG works closely with Higher Education and Improvement Wales (HEIW) to deliver sustainable workforce arrangements across imaging services in Wales.

Read more about our Workforce and Education Workstream here.

**Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion**

Mae arweinydd ein rhaglen ansawdd yn cydlynu'r gwaith o gyflwyno'r ffrwd waith hon drwy gyfrwng y Fforwm Ansawdd Delweddu Cymru Gyfan (AWIQF). Mae'r AWIQF yn grŵp sydd wedi hen sefydlu sy'n goruchwylio materion sy'n ymwneud â safoni ansawdd.

Cewch ddarllen rhagor am ein Ffrwd

**Quality, Safety and User Experience**

Our quality programme lead co-ordinates delivery of this workstream via the All Wales Imaging Quality Forum (AWIQF).The AWIQF is a well-established group overseeing matters relating to quality standardisation.

Read more about our Quality,

Waith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Defnyddwyr yma.

Safety and User Experience Workstream here.

**Cynllunio Adnoddau Strategol**

Mae'r arweinyddion rhaglenni a chlinigol yn y ffrwd waith hon yn gyfrifol am ddatblygu modelau ac atebion cynaliadwy ar gyfer cynnal gwasanaethau delweddu yng Nghymru.

Cewch ddarllen rhagor am ein Ffrwd Waith Cynllunio Adnoddau Strategol yma.

**Strategic Resource Planning**

Programme and clinical leads in this work stream are responsible for developing sustainable models and solutions for the delivery of imaging services in Wales.

Read more about our Strategic Resource Planning Workshop here.

**Gwybodeg, Gwybodaeth a Deallusrwydd Busnes**

Caiff y ffrwd waith hon ei chyflwyno drwy Raglen Gaffael y System Gwybodeg Radioleg (RISP).

**Informatics, Information and Business Intelligence**

Delivery of this work stream is via the Radiology Informatics System Procurement (RISP) Programme.

# Hwyl Fawr i Chris Kalinka! / Farewell to Chris Kalinka!




Bydd Chris Kalinka yn ymddeol o'r Cydweithrediad ym mis Hydref 2022 ar ôl ymuno â thîm y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol fel Rheolwr Rhaglenni bron bedair blynedd yn ôl ar secondiad o'i swydd fel Rheolwr Cyfarwyddiaeth Radioleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Bu Chris yn gweithio i sefydlu Grŵp y Gweithlu Delweddu ac Addysg ac i ddatblygu Strategaeth y Gweithlu Radioleg ar gyfer Cymru.

Cyn hyn, roedd Chris yn radiograffydd cofrestredig am dros

Chris Kalinka will be retiring from the Collaborative in October 2022 after joining the National Imaging Programme team as Programme Manager almost four years ago on a secondment from his Radiology Directorate Manager position in Cwm Taf Morgannwg University Health Board. Chris has been instrumental in establishing the Imaging Workforce and Education Group and developing a Radiology Workforce Strategy for Wales.

Prior to this, Chris was a registered radiographer for over 35 years - one

35 mlynedd – un o'r llwyddiannau y mae fwyaf balch ohonynt! Ochr yn ochr â'i yrfa gyda'r GIG, bu Chris yn aelod gweithgar o Gymdeithas a Choleg y Radiograffyddion (SCoR), gan ymuno â'r Cyngor Cymreig fel cynrychiolydd rheolwyr ac yn fwy diweddar fel Llywydd ar SCoR 2020-21 (gan ysgwyddo'r rôl hon ar ganol y pandemig!).

Mae Chris yn bwriadu treulio ei ymddeoliad yn canolbwyntio ar ei deulu ac yn mwynhau cerdded yr arfordir a theithio gyda'i wraig, Sian a'u ci, Peggy. Mwynha dy seibiant haeddiannol Chris, byddwn yn gweld dy golli!

of his proudest achievements! Alongside his NHS career, Chris has been an active member of The Society and College of Radiographers (SCoR), joining the Welsh Council as a management representative and more recently as SCoR President 2020-21 (navigating this role mid-pandemic!).

Chris plans to spend his retirement focusing on family and enjoying coastal walks and travelling with his wife, Sian and their dog, Peggy. Enjoy your well-deserved rest Chris, you will be missed!

## Croeso'n ôl i Harriet Ryland! / Welcome back Harriet Ryland!



Mae un arall o'n Rheolwyr Rhaglenni hyfryd yn ôl oddi ar ei habsenoldeb mamolaeth ac ôl geni ei merch fach, Ophelia, ym mis Hydref.

Arferai gwaith Harriet ganolbwyntio ar sefydlu rhaglen Gwyliadwriaeth MRI flynyddol Cymru gyfan i fenywod y gwelwyd bod ganddynt risg uchel iawn o ddatblygu canser y fron, a llwyddodd i gael cymeradwyaeth i'r achos cyfiawnhad busnes ar gyfer y gwasanaeth gan Brif Weithredwyr Cymru-gyfan yn union cyn i'w

Another of our lovely Programme Managers is back from maternity leave following the safe arrival of her baby daughter, Ophelia, in October.

Harriet was previously focused on the development of an all-Wales annual MRI Surveillance programme for women identified as very high risk of developing breast cancer, and was able to see the business justification case for the service approved by all-Wales Chief Executives just before her maternity leave started! This programme has now moved to the implementation

habsenoldeb mamolaeth ddechrau! Mae'r rhaglen hon yn awr wedi symud i'r cam gweithredu.

Edrychwn ymlaen i weld beth fydd Harriet yn ei gyflawni nesaf, wrth iddi symud ymlaen i oruchwylio rhaglenni newydd - gan gynnwys bwrw ymlaen rhywfaint o'r gwaith a ddechreuwyd gan Chris Kalinka. Rydyn ni wrth ein bodd dy gael yn ôl yn y tîm!

phase.

We look forward to seeing what Harriet achieves next, as she moves on to overseeing new programmes – including picking up some of the work started by Chris Kalinka. We are delighted to have you back in the team!

# Newyddion am y Rhaglen

Ychydig o newyddion sydd i'w rannu yn Chwarter 2 gan fod llawer o bobl yn cymryd gwyliau blynyddol dros yr haf, ond dyma rai uchafbwyntiau allweddol:

- **Rydym wedi adnewyddu ein tudalennau gwe – cymerwch olwg yma: Rhaglen Delweddu Genedlaethol - Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru**
- **Mae Grŵp y Gweithlu Delweddu ac Addysg wedi llunio dogfen strategaeth i'r gweithlu, a chaiff hon ei chwblhau a'i lansio'n fuan**
- **Ar ôl cwblhau Cronfa Ddata Asedau Offer Delweddu Cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru, mae ein Grŵp Blaenoriaethau Offer a Chyfalaf Delweddu Cenedlaethol wedi sefydlu proses flaenoriaethu a gwerthuso clinigol ar gyfer adnewyddu cyfalaf; caiff hon ei llunio fel cynnig ffurfiol a'i gyflwyno i Fwrdd Strategol y Rhaglen Delweddu Genedlaethol yn ddiweddarach eleni**
- **Cafodd dogfen gwmpasu Safon Ansawdd ar gyfer Delweddu (QSI) ei rhannu gyda grwpiau delweddu i gael sylwadau ganddynt**
- **Mae'r Grŵp Gwasanaethau Hanfodol Delweddu wedi rhannu adborth a**

# Programme News

Quarter 2 is quiet on the news front due to lots of people taking annual leave over the summer, but here are some key highlights:

- **Our web pages have been refreshed – take a look here: National Imaging Programme - NHS Wales Health Collaborative**
- **The Imaging Workforce and Education Group have developed a workforce strategy document, which is due to be finalised and launched soon**
- **Following completion of a National Imaging Equipment Asset Database for NHS Wales, our National Imaging Equipment and Capital Priorities Group have developed a clinical evaluation and prioritisation process for capital replacement, this will be written up as a formal proposal and presented to the National Imaging Programme Strategy Board later in the year**
- **A Quality Standard for Imaging (QSI) scoping document has been shared with imaging groups for comment**
- **The Imaging Essential Services Group have shared collated feedback on the newly established Welsh Government National**

gydgasglwyd ar Fwrdd Diagnostig Cenedlaethol newydd Llywodraeth Cymru ac maent yn aros am gadarnhad o'r drefn lywodraethu a'r aelodaeth.

Diagnostic Board and await confirmation of the governance and membership.

## Gwneud eich rhan!

Dilynwch gyfrif Twitter y Cydweithrediad **@CydGIGCymru**

**Gwefan:** **Rhaglen Delweddu Genedlaethol - Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru**

Os oes arnoch angen cysylltu ag aelod o dîm y Rhaglen Delweddu Genedlaethol, e-bostiwch: **NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk**

## Get involved!

Follow the Collaborative Twitter account **@NHSWalesCollab**

**Website:** **National Imaging Programme - NHS Wales Health Collaborative**

If you need to contact a member of the National Imaging Programme team, please email: **NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk**

NHS Wales Health Collaborative | 1st Floor, River House, Ynys Bridge Court, Gwaelod y Garth, Cardiff, CF15 9SS United Kingdom

Unsubscribe helen.james13@wales.nhs.uk

Update Profile |Constant Contact Data Notice

Sent bynhswhc.commsteam@communications.wales.nhs.ukpowered by

Constant Contact

Try email marketing for free today!